Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6

Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2019

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae'r ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Dolbenmaen yn cynnwys Bryncir, Garndolbenmaen, Golan, Penmorfa, Prenteg a Phentrefelin.

Poblogaeth o 1,343 (Cyfrifiad 2011) sydd gan ardal Dolbenmaen ac mae'n ymestyn dros 8,609 hectar. Y praesept ar gyfer 2019 – 2020 yw £18,000.

Mae'r gwasanaethau canlynol sy'n cael eu darparu gan y Cyngor yn cael effaith ar fioamrywiaeth:

- Cyfrifoldeb am dorri gwair mewn 5 Mynwent.
- Torri gwair 18 o lwybrau cyhoeddus sy'n cael ei defnyddio'n gyson.
- Torri gwair Cae Chware Penmorfa.

Adroddiad Gweithredu

Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan:
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	Wedi rhoi sylw i fioamrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio (gwrthwynebu cais amlinellol i godi tŷ er mwyn gwarchod coed ar y safle.	Wedi dangos yr ystyriwyd bioamrywiaeth wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd		
-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Hysbysu asiantaethau megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Parc Cenedlaethol o dyfiant rhywogaethau ymledol mewn ardaloedd cadwraeth arbennig.	Cofnodion y Cyngor.

-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Newid trefniadau torri gwair y Mynwentydd (Mai i Hydref) er mwyn annog blodau gwyllt a phlanigion eraill sy'n denu peillwyr, yn ogystal â darparu lloches ar gyfer mamaliaid ac ymlusgiaid bach.	Pwyllgor Mynwentydd
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	Prynir deunyddiau swyddfa yn lleol.	
-defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth		
-cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill		

Arolwg o ddyletswydd Adran 6

- Beth sydd wedi gweithio'n dda?

  Ers torri gwair Cae Chwarae Penmorfa yn rheolaidd, mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r safle gan y trigolion lleol.

  Rhwystrau

  Derbyniwyd cwynion gan ymwelwyr i un o'r Mynwentydd fod y gwair angen ei dorri.

  Newidiadau

  Cynnal trafodaethau gyda Phwyllgor y Cae Chwarae i glustnodi ardal yn y cae i greu gardd gwyllt.

- Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?

Bydd y ddyletswydd yn cael ei monitro drwy'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraethiant neu trwy'r archwiliadau arferol. Bydd y Cynllun Adran 6 yn cael ei adolygu yn ngoleuni'r dystiolaeth neu wybodaeth arall a wneir ar gael i'r Cyngor. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, nid oedd dyddiad penodol wedi ei bennu.